
Gweithredu mesurau i fynnu cydymffurfiaeth â chanllawiau rhyngwladol ar gyfyngu ar amlygiad i feysydd electromagnetig (EMF)

DIWEDDARIAD

Dyddiad Cyhoeddi: 1 Mawrth 2021

1. Trosolwg

Mae pob defnydd o sbectrwm radio yn cynhyrchu meysydd electromagnetig (EMF) ac mae canllawiau a gydnabyddir yn rhyngwladol i helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n gweithredu mewn ffordd na fydd yn cael effaith andwyol ar iechyd. Cyhoeddir y canllawiau gan y [Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelwch Ymbelydredd Anioneiddiol](#) (ICNIRP) ac maent yn cynnwys terfynau ar gyfer amlygiad i EMF. Caiff y canllawiau hyn eu cymeradwyo gan Iechyd Cyhoeddus Lloegr (PHE) yn ei gyngor i Lywodraeth y DU.

Mae Ofcom yn gyfrifol am reoli sbectrwm yn y DU. Er mwyn sicrhau bod defnyddwyr y sbectrwm yn parhau i weithredu gwasanaethau na fyddant yn cael effaith andwyol ar iechyd pobl, yn ein [Datganiad ym mis Hydref 2020](#), penderfynwyd ymgorffori'n ffurfiol y terfynau yn y Canllawiau ICNIRP er diogelwch y cyhoedd mewn trwyddedau sbectrwm.

Yn y Diweddariad hwn:

Rydym yn darparu fersiynau terfynol:

- yr amod trwydded EMF ar gyfer y broses amrywio trwydded; a'n
- "Canllaw ar Gydymffurfio a Gorfodi EMF"

Rydym yn cyhoeddi diweddariad i fersiwn treial ein cyfrifiannell EMF hefyd.

- 1.1 Ar yr un pryd â'n Datganiad ym mis Hydref 2020, bu i ni gyhoeddi [ymgyngoriad pellach](#) a fu'n cynnwys fersiynau drafft o'r amod trwydded EMF a'n "Canllawiau Cydymffurfio a Gorfodi EMF". Gwnaethom hefyd gyhoeddi fersiwn prawf o gyfrifiannell EMF syml. Cynlluniwyd y cyfrifiannell hwn i ganiatáu i drwyddedeion asesu cydymffurfiaeth yn syml ac yn hawdd, heb fod angen gwybodaeth dechnegol.
- 1.2 Cawsom 85 o ymatebion i'n hymgyngoriad pellach, a rhoddodd llawer ohonynt sylwadau manwl ar yr amod trwydded, y canllawiau a'r cyfrifiannell. Rydym wedi adolygu'r sylwadau hyn yn ofalus ac wedi mireinio ac egluro'r amod trwydded ymhellach ynghyd â'n "Canllawiau Cydymffurfio a Gorfodi EMF". Rydym bellach wedi cynhyrchu fersiynau terfynol o'r amod trwydded EMF y byddwn yn ei ddefnyddio ar gyfer y broses ffurfiol o amrywio trwyddedau ynghyd â'n "Canllawiau Cydymffurfio a Gorfodi EMF".
- 1.3 Rydym hefyd yn cyhoeddi diweddariad i fersiwn prawf ein cyfrifiannell EMF a chyn bo hir byddwn yn cyhoeddi canllawiau drafft sy'n hawdd eu defnyddio, gan gynnwys canllawiau ar gyfer defnyddwyr radio amatur a thrwyddedeion morol. Croesawn sylwadau pellach erbyn 16 Ebrill 2021 ar y cyfrifiannell wedi'i diweddarau a'r dogfennau canllaw hawdd eu defnyddio, a byddwn yn cyhoeddi fersiynau pellach o'r rhain yn y dyfodol.

Camau nesaf

- 1.4 Er mwyn gweithredu ein penderfyniadau yn Natganiad mis Hydref 2020, byddwn yn dechrau'r broses ffurfiol o amrywio trwyddedau cyn bo hir drwy gynnig amrywio'r holl

Diweddariad ar fesurau i fynnu cydymffurfiaeth â chanllawiau rhyngwladol ar gyfyngu ar amlygiad i feysydd electromagnetig (EMF)

drwyddedau presennol mewn dosbarthiadau sy'n awdurdodi pwerau trosglwyddo dros 10 Wat EIRP (neu 6.1 Wat ERP) i gynnwys yr amod trwydded EMF newydd. Ymgymerir â'r broses amrywio trwydded hon yn unol â gofynion Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006 a thelerau ac amodau trwyddedau sbectrwm.